

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.



Geraint Tudur, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ac Angharad Mair (Minny Street, Caerdydd) yn paratoui i adolygu'r papurau ar Raglen Dewi Llwyd ar fore Sul yr Eisteddfod.



Ynyr Roberts, trefnydd Pabell yr Eglwysi yn yr Eisteddfod, wrth ei waith. Diolch iddo am yr holl baratoi a fu ar gyfer Eisteddfod y Fenni.

Beti-Wyn James, Caerfyrddin, oedd yn arwain y sesiwn drafod 4 o'r gloch dydd Mawrth. Bu'n son am 'Bregethu'r Beibl'.



Christine Daniel, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru, yn son am y cardiau 'Beibl Byw' yr oedd gwahoddiad i bobl ysgrifennu ar eu cefnau cyn eu cysylltu â'i gilydd i godi tŵr!



Martyn Geraint yn canu rhai o ganeuon 'Canu Clod', y casgliad newydd o emynau i blant a phobl ifanc sydd wedi ei gyhoeddi mewn dwy gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair.

Taith y Pererinion

Mwynhaodd aelodau Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli bererindod hyfryd yn ddiweddar i Drefach Felindre, Castell Newydd Emlyn ac Eglwys y Carcharorion yn Henllan. Bu'r diwrnod yn un llawen a bendithiol a chafwyd cyfraniadau arbennig gan Peter Hughes Griffiths ym Methel, Drefach Felindre a John Gwilym Jones yn Henllan.



Mae'r Gymdeithas yn cwrdd yn wythnosol ar yr ail fore Mawrth o'r mis o Fedi i Fehefin yng Nghaffi Beca, Efailwen a daw gweinidogion o Sir Benfro, Sir Aberteifi a Sir Gâr ynghyd am awr o drafod a myfyrio a chyfle i gymdeithasu dros ginio. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Beti-Wyn James, Ysgrifennydd

Gwas Da i Iesu

Wedi cyfnod rhagorol o chwarter canrif fel Ysgrifennydd diwyd, Eglwys Pantycrugiau, Plwmp, Ceredigion fe benderfynodd Mr Cedric Rees ei bod yn amser rhoi'r tŵls ar y bar. Fel arwydd o'i gwerthfawrogiad mawr am ei lafur fe gyflwynodd yr eglwys rodd iddo trwy law y gweinidog, Y Parchg Carys Ann, sef llun o'r capel a chyfarchiad gyfansoddwyd gan Jon Meirion Jones. Yn y llun gwelir hefyd merch Mr Rees, sef Bethan oedd yn cynrychioli ei mam, Mrs Marian Rees.

Fel cysgod craig, a'th wreiddiau tynn
 O bridd y Gwndwn, un o'r fedel,
 Un ffyddlon, gwâr - i'r Achos gwyn,

Yn gysgod craig, a'th wreiddiau tynn.
 Cynheuaist fflam, a'i chadw 'nghynn
 A thaen goleuni dros y demel.
 Ti gysgod craig, a'th wreiddiau tynn
 O bridd y Gwndwn, un o'r fedel.

Jon Meirion



Diaconiaid newydd Eglwys Pantycrugiau, Plwmp.

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 33 Awst 11, 2016 50c.



Llio Marian Davies (chwith) yn gofalu am stondin lyfrau y Cyngor Ysgolion Sul gyda'r Pwyllgor Rheoli yn hamddena (ar y dde)!



Bu Dafydd Tudur (Capel Llwynceilyn, Ceredigion) yn darlithio ym Mhabell y Cymdeithasau ar ddydd Llun yr Eisteddfod ar y testun, 'Bywyd Newydd i Hen Bapurau'. Adnodd digidol newydd y Llyfrgell Genedlaethol oedd dan sylw.




Bu Aled Eurig ym Mhabell yr Eglwysi ar ddydd Llun, 1 Awst, yn siarad am 'Y Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Cyntaf yng Nghymru', a chafwyd orig hynod ddifyr yn ei gwmmi.



Casi Jones oedd yn gyfrifol am sesiwn gyntaf y 'Cyfarfodydd Pedwar o'r Gloch' ym Mhabell yr Eglwysi. Bu'n trafod 'Gwranddo ar y Beibl' ar y dydd Llun.



Eciwmeniaeth ar waith! Arfon Jones (Ebeneser, Caerdydd) a Gwyn Rhydderch (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yn mwynhau ym Mhabell yr Eglwysi yn Eisteddfod y Fenni!



Cathrine Haynes, Swyddog Plant Esgobaeth Mynwy, yng Nghornel Plant Pabell yr Eglwysi gyda Rhys, y mwnci!



Bob bore am 11.00am, cynhelir gwasanaeth byr ym Mhabell yr Eglwysi. Jeff Williams, Aberhonddu, oedd yn gyfrifol amdano dydd Llun.



Un arall oedd yn amlwg fwynhau ei ymweliad â'r Eisteddfod, Hywel Wyn Richards, Penybont-ar-Ogwr.



Gwenan Gibbard (Penlan, Pwllheli) a Gwilyn Bowen Rhys yn difyrru cenulleidfa'n feistrolgar iawn yn y Tŷ Gwerin dydd Llun..



Tom Defis yn gofalu am stondin Cymorth Cristnogol y drws nesaf i Babell yr Eglwysi.



Robin Samuel, Swyddog Cyswllt ac Adnoddau y De, ym Mhabell yr Eglwysi yn cyfarch a chroesawu y rhai oedd yn ymweld â'r babell.

Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Llanurwchllyn, 2016

Dyma'r gyntaf mewn cyfres o erthyglau fydd yn ymddangos yn ystod mis Awst sydd yn grynodedd o adroddiad Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr sef y Parchg Ddr Geraint Tudur.

Barchus Lywydd ac annwyl gyfeillion, rwy'n credu bod angen i mi ddweud ar ddechrau'r adroddiad hwn ei fod wedi ei ysgrifennu cyn i mi gychwyn ar fy nhaith ddiweddar i Dde Corea, ac felly cyn diwrnod y



Refferendwm ar 23 Mehefin. Oherwydd hynny, nid wyf yn trafod canlyniad y bleidlais o gwbl, ond rwy'n hynod falch fod trafodaeth i ddigwydd ar y mater yn ystod y Cyfarfodydd Blynyddol hyn. Mae'r blynyddoedd nesaf, a'n cyfraniad ni fel Cristnogion ac eglwysi yn mynd i fod yn aruthrol bwysig yn ysbrydol, yn wleidyddol ac yn gymdeithasol. Nid amser i fod yn dawel mo hwn; mae'n amser i'r gair proffwydol gael ei fynegi'n glir, felly gadewch i ni ymuno â'n gilydd i wneud yn siwr fod y gair hwnnw'n cael ei glywed, a hynny yn y manau y mae'n bwysig ei fod yn cael ei glywed.

Wittenberg

Nid yn aml y bydd dyn o f'oed i yn cael ei wfreiddio, ond dyna'n union ddigwyddodd ychydig wythnosau yn ôl, a hynny yn yr Almaen. 'Roedd CWM (*Council for World Mission*) wedi trefnu cynhadledd i drafod 'Ail-ddychmygu Protestantaethau', ac ni fydd yn syndod o gwbl i neb ddeall nad thema'r gynhadledd gipiodd fy sylw, ond ei lleoliad. Yr oedd i'w chynnal yn Wittenberg, crud y Diwygiad Protestannaidd, ac yno yr ymlwybrais ganol mis Ebrill yng nghwmni Alun, fy mrawd, a Rhodri Darcy, Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu yr Undeb. Lle anghyffredin o dawel oedd y Wittenberg a welsom ni, heb na phobl ar y strydoedd na cheir ar y ffyrdd. Dwy stryd oedd i'r lle mewn gwirionedd, a rheini'n raenus, twt a glân. Roedd pobman wedi ei beintio o'r newydd, a'r fynachlog lle bu Luther yn byw, yr eglwys y bu'n pregethu ynddi, a'r castell oedd yn gartref i'r eglwys y gosododd ei erthyglau ar ei drws yn 1517, yn ffurfio triongl o brif adeiladau. Hon oedd hen dref Wittenberg, tref yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r llwyfan i ddathliadau pum canmlwyddiant dechrau'r Diwygiad y flwyddyn nesaf.

Blwyddyn y Beibl Byw

Yr oedd fel bod ar set rhaglen deledu neu ar lwyfan gwag nad oedd yr actorion wedi ei gyrraedd eto. Ac yn y distawrwydd a'r

llonyddwch fe gawsom ni gyfle i wneud rhywbeth na fydd ymwelwyr y flwyddyn nesaf yn gallu ei wneud, sef crwydro'n hamddenol o amgylch yr hen dref a rhoi penrhyddid i'n dychymyg. Cychwyn yn y fynachlog, wrth droed y tŵr y cafodd Luther y profiad ynddo o ddeall am y tro cyntaf ystyr 'cyfiawnhad trwy ffydd yn unig'. Cerdded wedyn ar hyd Ffordd y Coleg, yr union ffordd ag y cerddodd Luther gydag Ioan Agricola i roi ei erthyglau ar ddrws eglwys y castell. Draw wedyn i eglwys y Santes Fair lle pregethodd Luther dros 2,000 o weithiau, nid o'r pulpud sydd ar hyn o bryd ar ochr dde i gorff yr eglwys, ond o'r pulpud oedd yn arfer bod ar yr ochr chwith, ac eistedd yno am ychydig yn dychmygu'r profiad o wrando ar un o'i negeseuon grymus. Yr oedd yn wfreiddiol, a'r bregeth ddychmygol yn danllyd ac yn heriol.

Wedyn, dyma ddechrau meddwl. Onid yr un Beibl yr oedd Luther yn ei ddarllen, ei astudio a phregethu ohono ag yr ydym ni yn ei ddefnyddio heddiw, y Beibl yr ydym ni mor gyfarwydd â fo, y Beibl y bu Arfon Jones mor brysur yn ei gyfieithu i Gymraeg cyfoes, a'r Beibl yr ydym yn ceisio cael pobl i'w ddarllen eleni ym Mlwyddyn y Beibl Byw? Pan ystyriwn gymaint o effaith a gafodd y Beibl hwn ar Luther a'i gyfoedion yn eu dydd, a'r modd y bu iddynt ysgwyd Cristnogaeth ar draws cyfandir cyfan, onid yw'n rhesymol ein bod ni'n gofyn pam fod y Beibl heddiw yn gwneud cyn lleied o argraff arnom ni? Onid dyma'r llyfr y mae Duw wedi ei ddefnyddio dros y canrifoedd i alw, i adeiladu, i hyfforddi, i ddisgyblu ac i wfreiddio ei bobl, a thrwyddo gynnwyl, bendithio ac adeiladu eglwysi yn y ffydd, i'w addoli a'i wasanaethu?

Wrth gwrs, mae'r cwestiwn hwn yn un sydd wrth wraidd y syniad o Flwyddyn y Beibl Byw. Dywedir wrthym fod llai a llai o bobl yn darllen unrhyw beth o sylwedd erbyn hyn, a mwy a mwy yn defnyddio'r cyfryngau gweledol.

Awdurdod y Beibl?

Os gwir yw hyn, sut ydym ni fel Cristnogion yn ymateb? Yr ydym, mae'n debyg, yn dal at y gosodiad mai'r Beibl yw 'unig reol ffydd a buchedd', yr unig awdurdod ar gyfer rhoi cyfeiriad i'n hargyhoeddiadau, a'n bywyd o ddydd i ddydd. Ond beth ydym i'w wneud os nad yw pobl yn ei ddarllen, nid yn unig y tu allan i'r eglwysi ond hefyd o'u mewn? Sut ydym yn ymateb i wrthwynebiad pobl i unrhyw syniad o awdurdod, a hynny'n cynnwys awdurdod y Beibl? Dywedir ein bod bellach yn feistri arnom ein hunain, yn dewis drosom ein hunain 'beth sy'n dda a

derbyniol a pherffaith' yn ein golwg ni. Ar yr un pryd, fe welwn ei bod wedi dod yn ffasiynol mewn rhai cylchoedd nid yn unig i amau, ond i danseilio'r Ysgrythur, gan ddefnyddio nid rheswm, na gwybodaeth na dysg, ond rhagfarnau ac anghrediniaeth yn enw rhyw fath o onestrywydd neu wrthrychedd Cristnogol. Ac nid sôn yr ydym am hen berlau trafodaethau'r dosbarth yr Ysgol Sul am gywirdeb stori'r geni gwyrthiol neu'r cwestiwn a agorodd y Môr Coch ai peidio; mae'r symudiad cyfoes, er nad yw'n newydd o bell ffordd, yn llawer mwy sinister na hynny, a hynny am ei fod yn ergydio at sylfaen yr iachawdwriaeth yn Iesu Grist. Dywedir nad ymgnawdoliad o'r Dwyfol mo Iesu, nad oes unrhyw arwyddocâd i'w farwolaeth y tu hwnt i farwolaeth anghyfiawn merthyr, ac nad atgyfododd ar y trydydd dydd. Dychymyg yn gorweithio sy'n mynnu hynny, neu awydd dwfn i roi mynegiant eithafol i ffydd amrwd yn Iesu.

Onid yw'r geiriau hyn yn golygu dim i ni bellach? (1 Corinthiaid 15:17-19):

'Os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd ac yn eich pechodau yr ydych o hyd. Y mae'n dilyn hefyd fod y rhai a hunodd yng Nghrist wedi darfod amdanynt. Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r bobl fwyaf truenus o bawb.'

Ond y gwir yw...

Os nad oes atgyfodiad, nid oes Gwaredwr. Os nad oes Gwaredwr, 'does dim iachawdwriaeth. Os nad oes iachawdwriaeth, 'does dim Cristnogaeth. Os dyna'r sefyllfa, mae angen i ni droi am adref, gyfeillion, i wneud rhywbeth gwell. Mae'r ffydd wedi darfod, y fflam wedi diffodd, ac yr ydym ninnau wedi'n gadael i ymdopi cystal ag y medrwn â bywyd sy'n cael ei lywio gan ddim mwy na'n crebwyll bach crebachlyd ni ein hunain. Nid yn y fan yna yr wyf fi'n sefyll, rwy'n falch o ddweud! Rwy'n darllen ymlaen yn llythyr Paul, ac yn gweld mai'r gair 'ond' yw'r nesaf. Hwn yw'r 'ond' Dwyfol, yr un 'ond' ag a welwn ni yn yr ail bennod o'r llythyr at yr Effesiaid, wedi i Paul ddisgrifio cyflwr enbyd y ddyfoliaeth. .

'Ond,' meddai Paul, 'y gwir yw bod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffyrwyth y rhai sydd wedi huno.'

Yma y safaf! Ni allaf ddim arall. Cynorthwyed Duw fi! Mae Gwaredwr, mae iachawdwriaeth; mae gras a chariad megis dilyw yn ymdywalldrosom ni, mae gobaieth a maddeuant yn aros, ac mae angen dweud hynny wrth bobl. Felly, mae gwaith i'w wneud, Efengyl i'w chyhoeddi, Newyddion Da i'w rannu. A dyna wnawn ni, doed a ddelo, i'n cyd-Gymry tra bo anadl ynom ni. Dyma'n galwad ni, dyma'n gwaith ni fel Undeb, nid pedlera gwacter, amheuaeth nac anobaith, ond meithrin ffydd a hyder er gogoniant Duw, i adeiladu ei bobl iddynt allu ymroi i'w waith.

Geraint Tudur

Barn Annibynnol

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

Beili-glas, Bryn-y-gwenyn, Llanelen, Llanffwyst, Penperllenni, Rhyd-y-meirch, ie a Llanofor: enwau hudolus rhai o'r pentrefi sydd o fewn tafliad carreg go lew i'r Fenni. Er cyn lleied y siaradwyr Cymraeg, dyw'r iaith ddim ymhell dan yr wyneb. Ganrif a hanner yn ôl roedd oedfaon Cymraeg mewn capeli ac eglwysi yn yr ardal, ac mor ddiweddar â chanrif yn ôl roedd yn agos i chwarter y boblogaeth yn medru'r iaith, a honno'n Wenhwyseg soniarus.

Dywedai Hywel Teifi Edwards, yr awdurdod ar hanes yr Eisteddfod, y gellid cyfri eisteddfodau'r Fenni yn ddechreuadau'r Eisteddfod Genedlaethol. Cymdeithas y Cymreigyddion oedd y brwdfrydwy oedd yn cynnal yr eisteddfodau hynny.

Yn eu plith roedd dau gymeriad egniol oedd ymhell o flaen eu hoes. Person rhyfeddol a champus oedd Gwenynen Gwent (Augusta Hall), a roddodd yn hael o'i hamser a'i hegni a'i harian i nodd gweithgareddau Cymraeg yn yr ardal. Un arall blaengar ymhlith y Cymreigyddion oedd Carnhuanawc (y Parchedig Thomas Price), a ddadleuai o blaid "yr angenrheidiol o drefnu moddion i blant Cymru gael eu haddysgu yn yr iaith Gymraeg, yn yr ysgolion beunyddiol yn ogystal â'r rhai sabothol." Sefydlodd ysgol Gymraeg Gellifelen, a honno'n ddigon

llwyddiannus i gael ei henllibio yn frwnt yn y Llyfrau Gleision.

Dirywio yn gyflym wnaeth niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif wrth i rieni fethu â throsglwyddo'r iaith i'w plant, dan bwysau'r Saesneg holl bresennol.

Y llanw'n troi

Ond wedyn, ryw hanner canrif yn ôl cyneuwyd fflam yng nghalon rhai rhieni i roi addysg Gymraeg i'w plant. Mae Frank Olding, Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Sir Fynwy yn sôn am ddarpariaeth gyntaf yr Awdurdod Addysg yn caniatáu dysgu Cymraeg mewn ysgol uwchradd, tra bod y wers am bedwar o'r gloch bnawn Gwener ac ar yr amod na fyddai neb yn sefyll arholiad yn y pwnc! Ond roedd yn ddechrau. A'r llanw'n troi.

Mae tyfiant addysg cyfrwng Cymraeg yn y De Ddwyrain yn ddiweddar yn syfrdanol. Mae miloedd o ddisgyblion yn ysgolion Cymraeg Gwent - Ysgolion Y Fenni, Cwibrân, Casnewydd, Y Ffin, Brynmawr, Brynnonen, yn bwydo Ysgol Gyfun Gwynllyw sydd â mil o ddisgyblion. Ddeng mlynedd yn ôl roedd un Ysgol Gynradd Gymraeg yng Nghasnewydd, erbyn hyn mae tair, lfor Hael, Bro Teyrnnon yn ychwaneg i Gasnewydd a bydd Ysgol Uwchradd Gwent Is Coed yn agor fis Medi.

Bu ymdrechion arwrol i gael popeth yn barod yn y Fenni ac i godi cyfanswm anhygoel o £200,000 yn lleol, a Sir Fynwy



Dewi M. Hughes

yn ychwanegu can mil at hynny. Roedd gweld y tyrfaedd yn cyrraedd y maes, a'r hwyl a'r asbri fu ar bethau yn werth yr ymdrech. Gwych iawn bawb un ohonoch. Diolch i chi.

Wrth i'r Eisteddfod symud o Fynwy i Fôn bydd gwerthfawrogi o'r newydd y chwistrelliad o hyder ac egni sy'n dod i'w chanlyn, a'i bod yn bwysig iddi ddal i deithio i bob cornel o'n gwlad. Er nad oes modd mesur dylanwad yr Eisteddfod ar ardal, gellid dadlau mai Eisteddfod 2004 yng Nghasnewydd a ysgogodd sefydlu dwy ysgol gynradd newydd ac ysgol uwchradd ers hynny.

Pobl Gwent, rhoesoch chwistrelliad o egni newydd i ni'r ymwelwyr. Gobeithio y byddwch chi hefyd ar eich mantais, a'r iaith a'r pethe yn mynd o nerth i nerth yn eich plith.

Oes gwersi i'w dysgu?

Tybed nad oes gwersi i'r eglwysi ym mrdwrydedd a llwyddiant y Fenni? Yn dilyn canrif o ddirywiad a cholli hyder, estynnwyd gwahoddiad i bobl y fro, "Dewch i fwynhau'r trysor hwn gyda ni. Fynnwn ni mo'i gadw i ni'n hunain" Bydd ymestyn ato yn ein cyfoethogi i gyd. Dyw hi ddim yn rhy hwyr. Ond rhaid cael agwedd newydd, mewn crefydd fel mewn diwylliant.

Symbyliad gwerthfawr hefyd fyddai cael ambell Garhuanawc a Gwenynen Gwent newydd, pobl â gweledigaeth ac egni dros ben llestri, yn ein plith.

Dewi M. Hughes.

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

Teyrnged E. Elfed Evans Colled Eglwys Hebron Llŷn

"Aeth o'n gŵydd ar eiliad drom
Aeth o'n plith un ohonom."

Gyda chwithdod y cofnodir marwolaeth E. Elfed Evans, Hebron, Llŷn. Nos Fawrth 26ain Ebrill 2016 y daeth y daith o 93 mlynedd i ben yn Ysbyty Bryn Beryl. Poenus a blin fu'r blynyddoedd olaf ond cafodd aros ar ei aelwyd tan y tair wythnos olaf pan fu'n rhaid iddo gael gofal ysbyty.

Troeon yr Yrfa

Un o feibion Hebron oedd o a bu'n ffyddlon i holl waith yr eglwys ar hyd ei oes. Yn 26ain oed etholwyd ef yn ddiagon ac ymddiriedolwr a bu'n drysorydd y fynwent am flynyddoedd. Bu'n aelod o Bwyllgor Cymanfa Bregethu Rhoshirwaun am 66 mlynedd. Ym 1943 daeth gŵr ifanc o'r de sef y Parchg J. D. Lewis (diweddar erbyn hyn) yn weinidog i Hebron. Dechreuodd teulu'r "South" ddod lan i'r "North" am wyliau ac yn ystod un o'r cyfnodau hynny cyfarfu Elfed â chwaer

ieuengaf y gweinidog a dyna ddechrau cyfnod o bron i 70 mlynedd o garwriaeth rhwng y "llanc ifanc o Llŷn" a'r ferch o Gefneithin. Ganwyd iddynt un ferch, Rhian.

Coffa Da Amdano

Yn 2005 teimlodd fod y cyfrifoldebau yn dechrau mynd yn faich a daeth i'r penderfyniad mai ymdeol fyddai'r cam doeth. Fel arwydd o werthfawrogiad am 55 mlynedd o wasanaeth, cyflwynodd yr eglwys ddarlun hardd iddo o Fae Aberdaron ac englyn o waith Richard Lloyd-Jones, Bethel, wedi ei fframio'n gywrain.

"Arddel ei weddi ag urddas – i'w Dad,
Mewn didwyll berthynas;
Un addfwyn ei gymwynas
Sul â'r Gair fu'n sail i'r gwas.

Roedd ei ddiweddar dad yn weddiwr heb ei debyg ac roedd yn amlwg fod Elfed Evans wedi etifeddu'r ddawn brin honno. Bu'r gwasanaeth angladdol yng nghapel Hebron, pnawn Sadwrn Ebrill 30ain,

gyda'r Parchg Geraint Hughes a'r Parchg Aled Davies yn gwasanaethu. Cynrychiolwyd yr eglwys gan y diaconiaid Mr W. J. Williams, Mrs. Doris A. Jones a Mrs Gwenda Roberts; Gwenda hefyd oedd wrth yr organ. Ar ddiwedd yr oedfa pnawn Sul - y Sulgwyn cafwyd cofiant a theyrnged iddo - yna safodd y gynulleidfa mewn cydymdeimlad â'i briod Megan Evans, ei ferch Rhian a'i phriod Gwyn. Canwyd yr emyn, "Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn?" Gwyddai Elfed yn iawn fod yr ateb yn y pennill olaf sef "Iesu a'm dwg i'r ddinas gadarn" a dychmygaf ei glywed yn sibrd yn ystod yr wythnosau olaf.

"Canu gwnaf y gainc anorffen
Am fy nwyn i ben y daith"

Gwerthfawrogiad imi gael cyd-gerdded rhan o daith bywyd yn ei gwmi.
"Od yw ei wedd dan lwyd ro,
Mae inni y mwyniant o'i gofio."

Doris A Jones